# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at ymateb i'r Ddadl Fer 'Hen Greiriau, Busnes Newydd: Archeolegol a Hanesyddol', a gyhoeddwyd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ar 10 Mawrth 2006

**At Lisa Francis:**

Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth, addewais ysgrifennu atoch ynghylch y safbwynt ar gofrestr o safleoedd brwydrau ar gyfer Cymru.

Mae fy swyddogion yn Cadw, mewn partneriaeth gydag ein corff gweithredol a noddir, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yn edrych ar y posibilrwydd o greu cofrestr o safleoedd brwydrau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru sy'n debyg i'r gofrestr a grëwyd yn Lloegr eisoes, sy'n cynnwys safleoedd 42 o frwydrau. Os bwriedir i'r gofrestr gael pwrpas tebyg yn y broses gynllunio, rhaid nodi union leoliad y frwydr, pob yn gae, ar fap ar raddfa fawr.

Mae'r comisiwn brenhinol wedi cynnal ymarfer i ganfod safleoedd brwydrau i'w cynnwys ar fapiau'r Ordnance Survey a gellir gweld y rhain ar wefan Coflein y comisiwn brenhinol, www.coflein.gov.uk (chwiliad testun o'r math o safleoedd brwydr). Tra ei fod yn canfod nifer fawr o frwydrau, mae'r arwyddion cynnar o'r ymarfer hwn yn awgrymu mai dim ond nifer fechan o safleoedd y gellir eu canfod sy'n ddigon manwl i'w cynnwys ar y gofrestr. Er mwyn cael darlun mwy manwl, yn dilyn y gwaith hwn ceir astudiaethau o enwau lleoedd ac ymchwil ar ffynonellau hynafiaethol. Unwaith y caiff rhestr o safleoedd posibl ei lunio—dylai hynny ddigwydd erbyn yr haf—byddwn yn ymgynghori â grwpiau arbenigol a chymdeithasau hanesyddol a hynafiaethol lleol. Dim ond wedyn y byddwn yn gwybod a yw wedi bod yn bosibl canfod digon o safleoedd brwydrau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol mewn modd manwl gywir i lunio cofrestr benodol ar gyfer brwydrau yng Nghymru.